Cofnodion CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD
A gynhaliwyd ar Ebrill 21ain 2011; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd

Yn Cadeirio'r cyfarfod oedd y Cynghorydd Dafydd Iwan.

(1) Cafwyd datganiadau diddordeb/buddiant personol gan Cynghorydd Geraint Jones a Cynghorydd Erddyn Davies. Fe adawodd y ddau y cyfarfod tra fo'r trafodaethau yn cymryd lle.

(2) Cafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Ifor D. Williams, Catrin Roberts ac Emyr Williams

(3) Cafwyd y Cofnodion yn gywir drwy gynnig gan Cynghorydd Geraint Jones, a gafodd ei eilio gan y Cadeirydd, Cynghorydd Dafydd Iwan. Dim gwrthwynebiad

(4) Llain o dir rhwng Stad Glan Beuno a Stad Dolbeuno, Bontnewydd : Fe ddarllennodd y Cadeirydd lythyr gan Mr Roberts o Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn derbyn mai ei cyfrifoldeb hwy yw'r Llain o dir. Gofynnwyd i'r clerc ateb drwy ddiolch i Mr Roberts am ei lythyr a gofyn beth yw bwriad CCG ynglyn darparu'r gwaith cynnal a chadw, ac iddynt ymgynghori â'r Cyngor Cymuned pan mae'r gwaith yn cael ei gyflawni. Yn olaf, mae'r clerc i ofyn ynglyn pa gynlluniau sydd ganddynt i glirio'r safle o'r sbwriel sydd yn cael ei adael yno.

(5) Ceisiadau am Gymorth ariannol : Fe wnaethpwyd y penderfyniadau canlynol : *Shelter Cymru* ***Swm = £25;*** *Y Groes Goch Brydeinig* ***Swm = £25;*** *Yr Eisteddfod Genedlaethol* ***Swm = £75;*** *BOBATH : Canolfan Therapi Plant Cymru* ***Swm = £25;*** *Gofal Croes Ffyrdd* ***Swm = £25;*** *NWASBAH* ***Swm = £25***

(6) Cyflwynodd y clerc mantolen cyfrifon y Cyngor Cymuned ar gyfer y blwyddyn ariannol 2010/11, sydd i'w harchwilio gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. O'r £13,500 gyllideb, fe wariwyd £13,450.69, gyda £97.77 o'r swm yn daliadau treth ar werth fydd yn cael ei ad-dalu yn y flwyddyn ariannol newydd. Fe olygai tan-wariant ar y gyllideb o £147.08. Oedd y cyfrif banc ddiwedd 2009/10 yn £10,019.44, ac eleni bydd yn £10,188.27 wedi'r holl daliadau cael ei gyfrifo.

(7) Ceisiadau cynllunio : fe gytunwyd i gais ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar goed ym Mhlas Dinas, Bontnewydd.

(8) Cafwyd lythyrau o ddiolch am roddion gan y Cyngor Cymuned gan Cymdeithas Lenyddol Undebol Bontnewydd, Cylch Meithrin Bontnewydd, Clwb Pel-droed Ieuenctid Bontnewydd a Papur Bro Lleu

(9) Cafwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd am fwriad Llywodraeth y Cynulliad i geisio, drwy Cyngor Gwynedd, i wellhau'r mynediad i'r rhyngrwyd i drigolion a busnesau'r Sir. Esboniodd fel y gall unigolion geisio am grant at hyd at £1,000 yr un ar gyfer costau cychwynnol prynu technoleg band eang amgen, ac esboniodd sut y gallai consortiwm cael symiau fwy sylweddol (e.e., gall consortiwm o 20 geisio am hyd at 20 x £1,000 = £20,000)

(10) Taclo Problemau Baw Cŵn : Cafwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd ynglyn camau i geisio rheoli'r problemau. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Gwasanaethau Stryd yn gofyn am arwyddion yn arbennig yn Llwyn Beuno ble mae'r broblem yn ddrwg.

(11) Y Ffordd Osgoi : Darllennodd y Cadeirydd neges Mr Alun Ffred Jones yn diweddaru'r Cyngor Cymuned ar y sefyllfa. Datganodd Mr Jones yn ei neges nad yw'n ochri gydag unrhyw ddewis llwybr, ond y byddai'n ceisio sicrhau fod pawb yn cael gwrandawiad teg. Dywedodd ymhellach ei fod wedi derbyn sicrwydd y byddai pob pwynt a godwyd yn cael ystyriaeth gofalus, a pan fydd y penderfyniad yn cael ei wneud bwriedir cynnal cyfarfod cyhoeddus ble gall pobl cynnig ei sylwadau i'r arolygwyr annibynnol. Darfododd ei neges drwy ddatgan y byddai'n hynod annhebygol y gallai unrhyw waith ymarferol ddechrau cyn 2014/15.

(12) Cafwyd cais gan Clwb Pel-droed Ieuenctid Bontnewydd i'r Cyngor Cymuned ail-edrych ar y gytundeb sefydlwyd yn 2007 i dalu swm o £750 y flwyddyn tuag at cynnal a chadw tir Cae Stanley. Fe gytunwyd i gynyddu'r swm 10% i £825.

(13) Cyflwr Modurdai Llwyn Beuno : Cafwyd sylwadau gan y Cynghorydd Sir, Chris Hughes, ynglyn cyflwr y 12 o fodurdai sydd yn Stad Llwyn Beuno. Mae'n ymddangos nad ydynt ar ddefnydd, a bod llanastr yn yr ardal o gwmpas y modurdai. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Cartrefi Cymunedol Gwynedd er mwyn eu gwneud yn hysbys o'r llanastr a gofyn iddynt ystyried clirio'r safle. Hefyd yn ei lythyr, mae'r clerc i ofyn iddynt beth yw eu cynlluniau hefo'r safle ac a fyddant yn fodlon cynnal cyfarfod gyda cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ar y safle. Yn olaf, mae'r clerc i'w gwneud yn hysbys bod, ym marn y Cyngor Cymuned, risg Iechyd a Diogelwch difrifol oherwydd cyflwr y modurdai.

(14) Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef y cyfarfod blynyddol ar Nos Iau, Mai 19 am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.